




Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

## Addasu i'r byd newydd: Cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd hybrid (addasydd ar gyfer plattfform fideo Zoom)

### Tachwedd 2022

Mae'n wir bod llawer o addasiadau wedi gorfod cael eu gwneud gan sefydliadau ar draws Cymru a thu hwnt i ymateb i sefyllfa'r pandemig, ac yn ddiweddarach hefyd wrth ddod i arfer â ffyrdd newydd o weithio.

Yn yr astudiaeth hon, mae Prifysgol Bangor yn disgrifio'r hyn y maen nhw wedi ei wneud er mwyn gallu cynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau dwyieithog yn hybrid trwy'r defnydd o addasydd ar gyfer plattfform fideo Zoom. Fel mae'r llun isod yn dangos, blwch bach yw'r addasydd sy'n cysylltu â gliniadur ar un pen ac â phenset cyfieithu (un penodol a ddefnyddir gan rhywun â theclynnau clyw fel rheol) ar y pen arall.



### Pam aeth y brifysgol ati i ddefnyddio'r system?

Yn dilyn y newidiadau i batrymau gwaith yn sgil Covid-19, cyfarfodydd ar-lein oedd mwyafrif helaeth y cyfarfodydd a gynhaliwyd gan Brifysgol Bangor o fis Mawrth 2020 ymlaen. Yn ystod y cyfnod hwn, bu Tîm Cyfieithu, Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor yn rhagweithiol wrth sicrhau bod modd cynnal cyfarfodydd yn ddwyieithog o bell, a dechreuwyd cynnig cyfieithu ar y pryd dros Zoom.

Wrth i ni ddod allan o'r cyfnodau clo ac edrych tuag at gyfnod y tu hwnt i Covid-19, roedd y posibilrwydd y byddai rhai cyfarfodydd yn rhai hybrid yn dod yn fwyfwy real. Hynny yw, bod rhai o'r bobl yn bresennol yn y cyfarfod 'yn y cnawd' ac eraill yn ymuno o bell. Roedd rhaid ystyried yn ofalus sut i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyd-destun o'r fath. Heb addasydd, ni fyddai modd i'r bobl fyddai'n ymuno ar Zoom glywed y cyfieithydd, oni bai bod y cyfieithydd yn gwisgo dau ficroffon – a fyddai'n anymarferol ac anghyfforddus.

### **Sut aeth y brifysgol ati i roi hyn ar waith?**

Gweithiodd Tîm Cyfieithu, Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor gyda darparwr trydydd parti, ac yn dilyn trafodaethau gyda nhw, comisiynwyd addasydd i'r brifysgol yn ystod Mis Mawrth 2021. Cafwyd cyfnod o dreialu a mireinio'r addasydd, ac un neu ddau o gyfarfodydd hybrid aflwyddiannus, cyn bod y tîm yn fodlon ar yr addasydd.

### **Sut mae'r addasydd yn gweithio?**

Mae'r addasydd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r cyfarfod Zoom trwy liniadur y cyfieithydd, ac yna'n cael ei gysylltu â phenset cyfieithu (un penodol a ddefnyddir gan rhywun â theclynnau clyw fel rheol). Mae'r addasydd yn cludo llais y cyfieithydd o'r microffon radio cyfieithu ar y pryd arferol i'r rhai sydd wedi ymuno â'r cyfarfod ar Zoom. Bydd gweddill y rhai di-Gymraeg sy'n bresennol yn yr un ystafell yn gwrando ar y cyfieithydd trwy'r pensetiau cyfieithu ar y pryd arferol, fel pe baen nhw mewn unrhyw gyfarfod arall gyda chyfieithydd ar y pryd. Nid oes modd i'r cyfieithydd ymuno â'r cyfarfod o bell a darparu cyfieithu ar y pryd i'r bobl yn yr ystafell; mae'n rhaid i'r cyfieithydd fod yn bresennol yn yr ystafell.

### **Pa ganlyniadau sydd wedi eu gweld hyd yma gan y brifysgol?**

Yn sgil comisiynu'r addasydd Zoom, mae cyfieithu ar y pryd wedi ei ddarparu'n llwyddiannus yn y brifysgol mewn amrywiol ddigwyddiadau hybrid, gan gynnwys cyfarfodydd pwyllgor, cynadleddau a gweithdai.

Yn ôl y rhai sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar Zoom trwy'r addasydd, mae ansawdd y sain yn dda iawn, a chystal â phe byddai'r cyfieithydd yn darparu gwasanaeth mewn cyfarfod Zoom arferol, yn hytrach na chyfarfod hybrid.

**Manylion cyswllt Sefydliad:** Prifysgol Bangor

**E-bost:** [cbs601@bangor.ac.uk](mailto:cbs601@bangor.ac.uk)

**Swyddog cyswllt:** Lowri Catrin Jones, Prif Gyfieithydd ar y Pryd

## Barn Comisiynydd y Gymraeg

Mae gofyniad ar sefydliadau o dan safonau'r Gymraeg i ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg wrth iddynt lunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli. Gall hynny gynnwys penderfyniadau sydd i'w gwneud sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau neu gynnal ei fusnes.

Mae'n debygol y bydd sefydliadau yn wynebu newid yn gynyddol yn y dyfodol a gyda hynny, yn gorfod gwneud penderfyniadau polisi pwysig ar eu dulliau o weithio a gweithredu a fydd yn llywio eu dyfodol. Mae'r sefyllfa ers y pandemig wedi amlygu hynny.

Yma, ceir enghraifft o'r newid sydd wedi ei wneud gan un sefydliad i ymateb i'r sefyllfa newydd hon. Yr hyn sydd yn hanfodol yw bod sefydliadau yn sicrhau bod ystyriaeth i'r Gymraeg yn cael lle blaenllaw o'r cychwyn a'u bod yn glir ynghylch unrhyw newidiadau neu addasiadau sydd angen eu gwneud i sicrhau nad oes effaith negyddol neu ostyngiad yn lefel y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael.

Yn fwy cyffredinol hefyd, mae gofyniad ar sefydliadau i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol mewn digwyddiadau sy'n cael eu trefnu neu eu hariannu ganddo. Ceir gofynion hefyd i sicrhau bod cynnig i allu cyfrannu yn Gymraeg mewn cyfarfodydd os yw'r mynychwyr yn dymuno hynny. Felly dyma enghraifft o'r ffordd y mae sefydliad wedi mynd ati yn rhagweithiol i sicrhau hynny, a bod cydweithio wedi bod gyda'r Tîm cyfieithu i benderfynu ar ddull effeithiol i sicrhau bod lefel y ddarpariaeth Gymraeg yn gallu cael ei chynnal wrth newid i drefn hybrid.